



Amser i ddathlu a gofalu

Nodiadau preaeth

ar gyfer 5 wythnos Amser y Greadigaeth 2010



© [Jake Khuon](#), [Justin Beck](#), [Moni Sertel](#), [Isidro Vila Verde](#)

Wedi'u seilio ar brif ddarlleniadau gwasanaethau'r Sul yn y Darlleniadur Cyffredin

Paratowyd gan y Parchg D Keith Innes ar gyfer Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

Mae'r nodiadau hyn ar gyfer pregethau yn rhan o raglen Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon o adnoddau i annog a chynorthwyo eglwysi i gadw Amser y Greadigaeth rhwng 1 Medi a 4 Hydref bob blwyddyn, er mwyn diogelu creadigaeth Duw a hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o fyw. Mae thema eleni, *Creadigaeth yn Ffynnu – Amser i ddathlu a gofalu*, yn cysylltu â Blwyddyn Fioamrywiaeth Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig.

Wythnos 1: 5 Medi

Sofraniaeth Duw, Cyfrifoldeb Dynol

Wythnos 2: 12 Medi

Cymuned y Greadigaeth Gyfan

Wythnos 3: 19 Medi

Canlyniadau Trachwant ac Anghyfiawnder

Wythnos 4: 26 Medi

Ariangarwch a'i Ganlyniadau

Wythnos 5: 3 Hydref

Gŵyl Sant Ffransis / Diolchgarwch am y Cynhaeaf

Nodyn rhagarweiniol gan yr awdur

Nid yw'r nodiadau hyn yn ceisio cynnig amlinelliad o bregethau cyflawn. Yr hyn a gyflwynir yma yw detholiad o fannau cychwyn posib, llinynnau esboniadol posib, a rhai meddyliau ar hap. Bydd angen darlunio'r rhain ymhellach a'u cymhwyso i'r cyd-destun lle cânt eu defnyddio. Gall pob pregethwr benderfynu sut mae cymhwyso Gair Duw i bob cynulleidfa ac achlysur, dan arweiniad yr Ysbryd Glân.

Rwy'n gobeithio y bydd y nodiadau hyn o ryw gymorth i gyflwyno perthnasedd y neges Gristnogol i'r mater mwyaf brys, ym marn llawer, y mae ein cenedl a'n byd yn ei wynebu.

Nid yw pob testun yr un mor addas i genhadaeth ecolegol yr Eglwys. Rwyf wedi canolbwyntio ar y rhai sy'n ymddangos yn fwyaf perthnasol, gyda chyfeiriadau byr at rai o'r lleill.

Wythnos 1: Sofraniaeth Duw, Cyfrifoldeb Dynol

5^{ed} Medi – y 14^{eg} Sul wedi'r Drindod (Priod 18)

Jeremeia 18:1-11	
Parhaus Jeremeia 18:1-11 Salm 139:1-5, 12-18 [1-7]	Cysylltiedig Deuteronomium 30:15-diwedd Salm 1
Philemon 1-21 Luc 14:25-33	



 [Richard Outram](#)

Mae sofraniaeth Duw yn sylfaenol i dystiolaeth y Beibl. Mae Duw yn teyrnasu mewn cariad sanctaidd, di-feth; mae ein profiad ni o deyrnasiad sofran Duw yn dibynnu ar ein dewisiadau. Cydbwysir gwirionedd sofraniaeth Duw â'n cyfrifoldeb ni. Mae Duw fel y crochennydd; mae cenhedloedd a phobloedd fel y clai (5). Nid yw bwriadau Duw bob amser yn cael eu cyflawni, oherwydd bod cenhedloedd a chymunedau weithiau'n gwrthsefyll cynllun Duw. Mewn achosion felly – o edrych ar y broses o safbwynt dynol – gall Duw gefnu ar y rhan honno o'r prosiect a chychwyn eto, ond heb roi i fyny byth. Mae'r broses yn gweithio'r ddwy ffordd: os bydd pobl yn dod â thrychineb arnynt eu hunain, ond wedyn yn newid cyfeiriad ac yn gweithredu'n ddoeth a chyfiawn, osgoir y farn; ar y llaw arall, os rhoddant eu teyrngarwch, eu hymddiriedaeth a'u hufudd-dod i Dduw ar y cychwyn, ond gan droi oddi wrth lwybr Duw yn ddiweddarach, byddant yn ildio'r canlyniad da a fyddai wedi dod i'w rhan (cymharer Eseciel 33:10-16).

Sut mae'r ddelwedd hon yn berthnasol i bryderon ecolegol? Gwelai proffwydi'r Hen Destament y byd naturiol fel rhywbeth oedd yn ymateb i weithredoedd dynol. Mae byd natur yn chwarae rhan ym mywyd y ddynoliaeth, er gwell neu er gwaeth. Ceir enghreifftiau yn Jeremeia 12:10-13; 22:6-9; 31:12-14; gweler hefyd Eseciel 24:4-7; Hosea 4:1-3. Rydym ni'n tueddu i weld gwreiddiau economaidd, gwleidyddol a thechnolegol i gamdriniaeth ecolegol, ond mae Michael Northcott wedi dangos bod dimensiwn ysbrydol dwfn. 'When read in the light of Jeremiah's theological reading of the imperial geopolitics of ancient Mesopotamia, global warming, like the exile of ancient Israel, represents both the threat of judgement and the promise of a better way of living on God's earth than the neoliberal vision of a global market empire.'¹

Mae pobl a chreaduriaid eraill yn creu gwead cymhleth o berthnasoedd â'i gilydd, ac maent wedi'u clymu ynghyd wrth dderbyn barn a bendith Duw. O edrych ar y darn sy'n cael ei adolygu mewn goleuni o'r fath, gallwn weld bod pechod ecolegol yn arwain at farn; tra bod ffyddlondeb yn ein hymwneud â byd Duw yn ein galluogi i fod yn offerynnau bendithion Duw a'u derbyn.

Mae nifer o'r darlenniadau eraill yn pwysleisio natur anochel dewis. Deuteronomium 30: 15-diwedd yw rhan olaf araith gan Foses a gyflwynir ym mhennod 29, adnod 1. Mae'n trafod adnewyddu cyfamod Duw gyda'r Israeliaid. Yn nhir Moab y mae'r olygfa, ar y ffin â Gwlad yr Addewid. Fel llawer o rannau eraill o'r Beibl, mae'n cynnig dewis plaen rhwng da a drwg, cyfiawnder a phechod, bendith a barn. Dim ond y ddeuoliaeth ffug sy'n gwahanu corff ac enaid, ecoleg a'r economi, allai ein harwain i dybio nad yw dewisiadau ysbrydol mor sylfaenol yn gysylltiedig ag argyfyngau ecolegol. Ar lefel unigol ceir yr un dewis sylfaenol wedi'i symleiddio yn Salm 1.

Yn Luc 14:25-33 nid yw Iesu'n gostwng y bar ar gyfer disgyblion er mwyn osgoi 'dialonni pobl'. I'r gwrthwyneb, mae'n gwneud gofynion llym yn wyneb brwdfrydedd. Wrth gwrs nid yw'r ymadrodd am 'gasáu' anwyliaid a hyd yn oed fywyd ei hun yn anogaeth i esgeuluso neu wrthod teulu, nac i gasáu eich hun. Yr hyd mae'n ei olygu yw na ddylai dim gymryd blaenoriaeth dros ein teyrngarwch i Grist. Mae bod yn ddisgybl yn galw am realaeth. Wrth ymateb i'r alwad i ddilyn Iesu, rhaid i ni ystyried yn ofalus beth fydd ystyr hynny. Mae'n rhaid i ni 'gyfri'r gost' yn union fel rhai sy'n mynd ati i godi adeiladau neu gynnal ymgyrch filwrol.

Wrth gymhwyso'r egwyddorion hyn i ofal am y creadigaeth, mae'n rhaid i ni sylweddoli ein bod wedi'n cyfyngu i ryw raddau gan fethiannau'r llywodraeth a strwythurau cymdeithas. Ond mae'n rhaid i ninnau wneud penderfyniadau am ein ffordd o fyw, ein treuliant, ein teyrngarwch gwleidyddol, arferion gwyliau ac ati. Gelwir arnom i gerdded y ffordd gyda Iesu, yn ymwybodol o'n hamherffeithrwydd, gan uniaethu'n hunain â'i ffordd ef o roi ei hun, heb fodloni byth ar roi llai na'r cyfan.

¹ Michael S. Northcott, *A Moral Climate; The Ethics of Global Warming* (London: Darton, Longman & Todd/Christian Aid, 2007) 15.

Wythnos 2: Cymuned y Greadigaeth Gyfan

12^{fed} Medi – y 15^{fed} Sul wedi'r Drindod (Priod 19)

Jeremeia 4:11-12, 22-28	
Parhaus Jeremeia 4:11-12, 22-28 Salm 14	Cysylltiedig Ecsodus 32:7-14 Salm 51:1-11
1 Timotheus 1:12-17 Luc 15:1-10	



 [Martin Heigan](#)

Darlunnir barn Duw fel gwynt dinistriol yn erbyn y rhai sy'n anwybyddu ffordd Duw'n fwriadol, ac y mae eu sgiliau naturiol wedi'u cyfeirio at ganlyniadau drwg yn unig (11-12, 22). Mae'r proffwyd yn cyflwyno darlun dychrynlyd o'r greadigaeth yn ymddatod. Mae Duw yn gwyrddroi'r gwaith creadigol a welwyd ar ddechrau Genesis. Mae'r ddaear unwaith eto yn 'afluniaidd a gwag' (23). Cuddir y goleuni; mae'r mynyddoedd yn crynu; mae pobl ac adar wedi diflannu; mae gwaith amaethyddol a threfol gwareiddiad wedi diflannu (23-26). Mae Adnod 27 yn cynnig llygedyn o obaith nad yw'r farn, wedi'r cyfan, yn llwyr. Ond tywyllwch dudew a geir yn y weledigaeth derfynol (28).

Wrth ddehongli'r weledigaeth hon o farn, dywed Kathleen M. O'Connor: 'Theologically, politically, socially, the Babylonian invasion of Judah and Jerusalem meant the end of the world and the cessation of the created order for the community.'² Â ymlaen: 'In this mythical conception, earth, animals, and cities form an organic, interdependent whole, and their destruction by YHWH's angry decree is the result of human evil'.² O safbwynt y Beibl, mae'r ddaear a phopeth sydd ynddo yn creu cymuned. Un o gangymeriadau sylfaenol ein diwylliant ni yw gwahanu'r ddynoliaeth oddi wrth weddill y greadigaeth. Mae'r term 'yr amgylchedd' ei hun yn awgrymu ein bod ni'n endid ar wahân, gyda phopeth arall 'ar y tu allan'.

Yn hanes y creu yn Genesis, caiff pobl a chreaduriaid eraill eu llunio gyda'i gilydd (Genesis 1:24-31). Yn y darn hwn cânt i gyd eu barnu gyda'i gilydd. Mae gan bobl, y rhoddwyd galwad a breintiau arbennig iddynt, ran hollbwysig i'w chwarae yn natblygiad a lles y greadigaeth. Pan fyddwn ni'n methu, bydd y greadigaeth gyfan yn dioddef. Yn yr un modd, mae prynedigaeth y greadigaeth yn disgwyl am brynedigaeth lawn bodau dynol (Rhufeiniaid 8:18-23). Mae dwy elfen i'r gorchymyn a awgrymir: gweithio 'yn unol' â bwriadau achubol Duw drwy helpu i achub rhywogaethau y mae ef wedi'u creu; a throi oddi wrth y balchder a'r eilunaddoliaeth sy'n destun ei farn.

Portreadir ystyr waelodol eilunaddoliaeth fel addoli Duw yn nelw creadur naturiol, yn hytrach nag yn natur wirioneddol Duw fel Creawdwr Hollalluog, Cariadus yn [Ecsodus 32:7-14](#). Mae [Salm 14](#) yn dangos cwmpas a dyfnder llygredd y ddynoliaeth. Mae'r ddau ddarn o'r Testament Newydd yn mynegi rhyfeddod cariad achubol Duw. Mae [Luc 15:1-10](#) yn trafod achubiaeth pobl. Ond mae'r ddadl yno'n dibynnu ar werth aruchel pethau a gollwyd. Heb y rhagdybiaeth honno byddai'r damhegion yn colli eu grym. Mewn cyferbyniad, mae llawer o bobl yn tueddu i feddwl mai mater cymharol ddibwys yw diflaniad rhywogaethau naturiol. Mewn materion cynllunio, mae'r economi yn aml yn cael blaenoriaeth dros ecoleg. Yn rhannol o ganlyniad i feddylfryd o'r fath, rydym yn byw yn ystod y chweched difodiant mawr a welwyd yn hanes y Ddaear – y cyntaf i'w achosi gan bobl. Dywedir bod cyflymdra presennol difodiant 100, neu hyd yn oed 1,000 o weithiau dros ben y lefel naturiol.³ Bydd gwir ymdeimlad â gwerth creadigaeth Duw yn peri i ni edifarhau am ei diystyru mor ddideimlad.




² Kathleen M. O'Connor, 'Jeremiah', *The Oxford Bible Commentary* (Oxford University Press, 2001), 494.

³ David Chandler, 'Over the Edge?', *A Rocha* 32, Gwanwyn 2010, tud.12-13. Mae'r erthygl hon yn cyfeirio at Johan Rockström et al., 'A Safe Operating Space for Humanity', *Nature* 461:24 Medi 2009, tud. 472-475. Gweler hefyd Sean McDonagh SSC, *The Death of Life: The Horror of Extinction* (Dublin: The Columba Press, 2004), 9-11.

Wythnos 3: Canlyniadau Trachwant ac Anghyfiawnder

19^{eg} Medi – yr 16^{eg} Sul wedi'r Drindod (Priod 20)

Amos 8:4-7	
Parhaus Jeremeia 8:18-9:1 Salm 79:1-9	Cysylltiedig Amos 8:4-7 Salm 113
1 Timotheus 2:1-7 Luc 16:1-13	



 [Grant Williamson](https://creativecommons.org/licenses/by/4.0/)

Yma mae masnachwyr anonest a diegwyddor yn dinistrio pobl dlawd a diamddiffyn. Mae rhai sylwebyddion yn awgrymu bod grawn yn cael ei fenthyg i'r tlodion, gan greu caethweision dyled. Yn sicr roedd cynnyrch a phobl yn cael eu hystyried yn ffynonellau incwm.⁴ Nid oedd amynedd gan y masnachwyr hyn â chyfyngiadau ysbrydol ar eu busnes (5a). Roeddent yn twyllo trwy nodi symiau a gwerthoedd ffug (5b). Ar ben hynny, roedd y nwyddau mor wael fel eu bod yn ddi-fudd (6). Er bod cael eu cofio gan Dduw (7) yn aml yn anogaeth, yma mae'n arwydd o farn a rhybudd.⁵

Yn ein heconomi fyd-eang, mae arferion masnachu barus a chamdriniol yn difeddiannu pobl a rhywogaethau naturiol. Mae dinistrio fforestydd trofannol yn ymosod ar bobloedd a bywyd gwylt brodorol. Mae masnach ifori a 'chig y llwyni' yn bygwth eliffantod a phrimatiaid. Weithiau caiff fforestydd eu dinistrio gan bobl sydd eu hunain wedi anobeithio cael hyd i dir i'w bwydo eu hunain a'u teuluoedd. Mewn llawer o achosion mae'r galw gan y cenhedloedd cyfoethog yn golygu bod pobl a'r byd naturiol yn cael eu hecsbloetio. Er enghraifft, gall ein galw dibendraw am gorgimychiaid rhad arwain at ddinistrio mangrofau trofannol; mae pysgodfeydd tiwna yn bygwth dolffiniaid ac albatrosiaid. Yn ein byd ni, felly, ni ellir gwahanu gormesu'r tlawd, fel yr hyn y mae Amos yn ei gondemnio yn ei gyfnod ef, oddi wrth ddinistrio rhywogaethau ac ecosystemau. Yn hytrach na themlo'n euog yn unig, gallwn gymryd camau ymarferol a gwleidyddol tuag at fasnach deg sy'n ecolegol gyfrifol.

Mae Salm 113:7 yn ein hatgoffa bod Cenhadaeth Duw yn cynnwys arbed y tlodion. Mae 1 Timotheus 2:1-7 yn ein hatgoffa y dylai gweddiâu'r Eglwys fod yn rhai byd-eang eu cwmpas. Cyfeirir gweddi dros y rhai sydd â grym at 'fywyd tawel a heddychlon, yn llawn duwioldeb a gwedduster' i bawb (2). Mae amgylchedd iach a chymdeithas gyfiawn fel ei gilydd yn angenrheidiol i greu'r fath ganlyniad.

Mae'r ddameg sy'n ein synnu braidd yn Luc 16:1-8a (neu o'i dehongli'n wahanol, yn 16:1-7 gyda sylwadau gan Iesu yn adnod 8 yn ogystal ag adnod 9) yn codi llawer o gwestiynau dehongli. Ond o leiaf mae'n dysgu bod canlyniadau tragwyddol i'n dull o ddefnyddio cyfoeth (9).⁶ Mae'r dywediadau a ychwanegir yn adnodau 10-13 hefyd yn llawn posibiladau o ran eu cymhwyso i gyfrifoldeb ecolegol. Yn olaf, efallai dylai'r galar a fynegir yn Jeremeia 8:18-9:1 ein herio o ran dyfnder ein tristwch ninnau am greadigaeth a gamdriniwyd. Mae rhai hyd yn oed wedi awgrymu bod galar Duw ei hun yn cael ei fynegi yma.⁷



⁴ Gweler Donald E. Gowan, 'The Book of Amos', *The New Interpreters' Bible* (Nashville, TN: Abingdon Press, 1996) t. 416; Francis I Andersen a David Noel Freedman, 'Amos', *Anchor Bible* (New York: Doubleday, 1989) tud. 801, 804.

⁵ Mae ystyr 'balchder Jacob' yn ansicr. Gweler 6:8. Gallai fod yn eironig, neu'n deitl ar Dduw, neu hyd yn oed gyfeirio at Wlad yr Adnewid. Gweler Gowan, t. 417.

⁶ Fred B. Craddock, *Luke* (Louisville: John Knox Press, 1990) t. 190.

⁷ Patrick D. Miller, 'The Book of Jeremiah', *The New Interpreters' Bible* (Nashville, TN: Abingdon Press, 2001) t. 648.

Wythnos 4: Ariangarwch a'i Ganlyniadau

26^{ain} Medi – yr 17^{eg} Sul wedi'r Drindod (Priod 21)

Amos 6:1a, 4-7	
Parhaus Jeremeia 32:1-3a, 6-15 Salm 91:1-6, 14-diwedd [91:11-diwedd]	Cysylltiedig Amos 6:1a, 4-7 Salm 146
1 Timotheus 6:6-19 Luc 16:19-diwedd	



 [Matthieu Aubry](#)

Mae Amos 6:1a, 4-7 yn rhoi darlun o hunan-ymfodddhad dilyffethair i ni. Mae hyd yn oed y gwelyau y mae'r bobl yma'n gorwedd arnynt wedi'u gwneud o'r deunyddiau drutaf. Mae eu diet beunyddiol yn cynnwys bwyd sydd allan o gyrraedd pobl gyffredin. Mae eu moethusrwydd yn golygu eu bod yn gallu mwynhau'r gerddoriaeth orau. Gan ddiystyru cwpanau arferol, maent yn yfed o ddysglau, a gallant fforddio'r colur gorau.

Ydyn nhw'n cael eu condemnio am fwynhau pethau da bywyd? Nac ydynt. Achos y farn arnynt yw eu methiant i alaru a theimlo atgasedd at y dinistr sy'n dod i ran eu pobl (6). Oherwydd hynny byddant hwy ar flaen y rhai a alltudir, a bydd eu nychdod yn y dyfodol yn fwy fyth o'i gyferbynnu â'u cyfoeth gynt (7).

Mae difaterwch yn demtasiwn arbennig i'r rhai sy'n byw'n gysurus. Gallwn ddiodeff syrthni sy'n dweud bod popeth yn dda – tra bod mwyafrif poblogaeth y byd, a niferoedd aruthrol o greaduriaid gwyllt, yn cael trafferth goroesi. Y man cychwyn ar ein cyfer ni, sy'n dda ein byd, yw agor ein clustiau i lais Duw a'n llygaid i'r byd go iawn o'n cwmplas.

Ceir cipolwg gwahanol ar bersbectif dwyfol ar eiddo yn Jeremeia 32:1-3a, 6-15. Nid oedd rhagolygon y proffwyd na Jerwsalem yn addawol. Roedd y ddinas o dan warchae, a Jeremeia'n garcharor i'r Brenin Sedeceia. Yn ystod cyfnod tawel, o bosib, daw cefnder Jeremeia ato gyda chynnig busnes. Mae'n cael cyfle i brynu darn o dir yn y pentref lle y'i magwyd. Nod cyfreithiau eiddo Israel (gweler Lefiticus 25:25) oedd atal eithafion cyfoeth a thlodi, a diogelu etifeddiaeth deuluol. O dan y cyfreithiau hyn, gofynnwyd i Jeremeia brynu maes gan ei ewythr. Er gwaethaf yr amgylchiadau anaddawol iddo ef ei hun a'r ddinas, mae'n gwneud hynny.

Arwyddocâd hynny yw ei fod yn dangos ffydd Jeremeia yng nghynlluniau Duw at y dyfodol. Er ei fod wedi datgan yn ddi-ofn bod barn Duw yn dod, roedd hefyd yn gweld achubiaeth y tu hwnt i'r dinistr. Efallai bod ein sefyllfa ni yn debyg. Mae edrych ar y byd o safbwynt Beiblaidd yn ein gwneud yn besimistaidd ynghylch posibilrwydd ffyniant ecolegol cyhyd â bod trachwant corfforaethau ac unigolion yn teyrnasu. Ond mae Duw hefyd yn addo adnewyddu wyneb y ddaear. Mae byw trwy ffydd yn nyfodol Duw yn golygu byw nawr er mwyn achub rhywogaethau a'u hamgylchedd, gan ymddiried yng ngallu achubol Duw.

Mae 1 Timotheus 6:6-19 yn rhybuddio am berygl gweld cyfoeth fel nod i'n bywydau. Yn hytrach dylem geisio bodlonrwydd (6-9). Ac eto mae ein system economaidd gyfredol yn dibynnu ar alw na ellir ei fodloni a threuliant dilyffethair i gynnal twf. Bydd athroniaeth o'r fath, mewn byd o adnoddau cyfyngedig, yn esgor ar dlodi a dinistr ar gyfer diwyllianau dynol a rhywogaethau naturiol. Yn hytrach na cheisio sicrhau mwy o hyd, anogir y cyfoethog i ddefnyddio'u cyfoeth yn greadigol ac yn hael, gan roi Duw yn y canol yn eu bywydau (17-19).

Yn olaf mae Luc 16:19-diwedd yn cyfleu rhybudd tebyg. Mae'r dyn cyfoethog yn arddangos yr holl briodweddau a gaiff eu condemnio yn 1 Timotheus: traha, a cheisio bywyd trwy hamddena hunanol a moethau. Yn ystod ei oes mae'n diystyru'r tlotyn wrth y drws. Ar ôl marw, pan yw'r sefyllfa wedi'i gwyrdroi, mae'n dal i weld Lazarus fel rhywun is nag ef y gellir galw arno i leddfu ei ing yntau (24, 27). Dylasai gair Duw fod yn ddigon i'w dywys oddi wrth ei feddylfryd hunanol a dideimlad. Os caiff hynny ei ddiystyru, ni fydd dim yn tycio.



Wythnos 5: Gŵyl Sant Ffransis/Diolchgarwch am y Cynhaeaf

3^{ydd} Hydref – y 18^{fed} Sul wedi'r Drindod (Priod 22)

<p>Parhaus Galarnad 1:1-6, Galarnad 3:19-26 neu Salm 137 [137:1-6]</p>	<p>Cysylltiedig Habacuc 1:1-4; 2:1-4 Salm 37:1-9</p>
<p>2 Timotheus 1:1-14 Luc 17:5-10</p>	



 [Howard Stanbury](#)

Nid yw'r darlenniadau hyn yn ymddangos yn hawdd eu cymhwyso i neges ecolegol heb eu haddasu neu ddefnyddio elfen gref o haniaeth. Isod cynigir dau bosibilrwydd arall o'r darlenniadur yn eu lle.

Ar gyfer Gŵyl Sant Ffransis (4 Hydref)

Galatiaid 6:14-diwedd, Luc 12:22-34

Yn Luc 12:22-34 mae Iesu'n dangos bod meddylfryd pryderus yn ddiangen ac yn afresymol. Y neges y tu ôl i'w eiriau am adar a blodau gwyllt yw bod Duw wedi gwneud hwn yn fyd cyfeillgar yn y bôn. Ar y cyfan, mae'r ecosystem yn sicrhau bod pob creadur yn derbyn yr hyn y mae ei angen arno. Mae dwy elfen i'r her sy'n ein hwynebu ninnau: yn gyntaf i fyw gan ymddiried yn narpariaeth Duw; yn ail i wrthod gweithredoedd ac agweddau sy'n ymyrryd â gofal rhagluniaethol Duw. Mae trachwant, diofalwch ac anghyfiawnder dynol yn llesteirio darpariaeth dadol Duw, fel y mae gweithredoedd a pholisïau sy'n dinistrio rhywogaethau naturiol a'u cynefinoedd. Mae'r ddau achos yma o lurgunio bwriadau Duw yn digwydd pan fo masnach yn annheg, pan ganiateir diwydiannau sy'n llygru, a phan gaiff gweithwyr eu hecsbloetio'n anghyfiawn.

Cyfraniad mawr Ffransis o Assisi at ddiwinyddiaeth a natur ysbrydol gofal ecolegol oedd ei weledigaeth bod pob person a'r greadigaeth gyfan yn un teulu. Gwelai ef greaduriaid byw, elfennau naturiol a hyd yn oed farwolaeth ei hun fel brodyr a chworydd iddo. Dylid gweld y weledigaeth hon yng nghyd-destun ei ymgysgriad llwyr i Grist, a grynhoir yn Galatiaid 6:14. 'Francis's relationship with nature had a *cruciform* character. He became the Christ-like servant of nature.'⁸

Diolchgarwch am y Cynhaeaf

Deuteronomium 26:1-11; Salm 100; Philipiaid 4:4-9 neu Datguddiad 14:14-18; Ioan 6:25-35

Roedd aberthu'r blaenffrwyth (Deuteronomium 26:1-11; gweler hefyd Ecsodus 23:19; Deuteronomium 18:4) yn fodd i gydnabod bod y tir yn eiddo i Dduw ac mai rhodd Duw oedd ei gynnyrch. Roedd adrodd stori Israel yn rhoi persbectif hanesyddol i'r rhodd. Roedd Jacob – yr Aramead 'crwydrol', neu 'yn darfod' neu 'bron â threngi' o bosib – wedi esgor ar linach a achubwyd rhag caethwasiaeth, gan dderbyn tir da, ffrwythlon. Rydym hefyd yn addoli Duw fel rhoddwr pethau corfforol ac ysbrydol; cynhaeaf y tir a'r moroedd, a ffrwythau ein holl waith i Dduw. Ysbryd diolchgar felly yw'r sylfaen orau ar gyfer bywyd a dreulir yn gofalu am y ddaear a'i thrigolion – y bobl a'r elfennau nad ydynt yn ddynol.

Mae Philipiaid 4:4-9 yn ein harwain at fywyd wedi'i gyfeirio at Dduw ac sy'n dibynnu ar Dduw. Dylai ysbryd addfwynder a heddwch arwain yn naturiol at fywyd o ofal a sensitifrwydd at greadigaeth Duw.

Mae Ioan 6:25-35 yn mynnu bod rhaid rhoi blaenoriaeth i berthynas o ymddiriedaeth a dibyniaeth ar Dduw yng Nghrist. Dylai'r rhai sy'n cael eu hystyried fel 'Cristnogion Gwyrdd', sy'n ceisio byw bywyd ecolegol gyfrifol, gofio ein bod yn gwasanaethu Duw sydd wedi'n hachub rhag pechod, ond sydd hefyd yn Greadwr a lachawdwr popeth a wnaeth. Wrth weithio gydag eraill dros greadigaeth Duw, rhaid i ni gofio mai Iesu yw Arglwydd ac Achubwr y bydysawd i Gristnogion, ac mai ei ogoniant ef y dylem ei geisio.

⁸ H. Paul Santmire, *The Travail of Nature: The Ambiguous Ecological Promise of Christian Theology* (Philadelphia: Fortress Press, 1985) t. 111 (pwyslais yn y gwreiddiol). Gweler hefyd yr adran gyfan, tud. 106-119.

